
DREF WEN

fflach doniol

Llyfr Llafar gyda chôd QR

# Babi Ben




Gwyn Morgan


# Babi Ben

Cam 12

# Babi Ben

GWYN MORGAN

Lluniau gan Dai Owen



DREF WEN


© y testun Gwyn Morgan 2004
© y lluniau Dai Owen 2004

Cyhoeddwyd gan Wasg y Dref Wen,
28 Ffordd yr Eglwys,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EA
Ffôn 029 20617860

Argraffwyd ym Mhrydain.

Cedwir pob hawlfraint. Ni chaiff unrhyw ran o'r llyfr hwn ei hatgynhyrchu na'i storio mewn system adferadwy na'i hanfon allan mewn unrhyw ffordd na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, peirianyddol, llungopïo, recordio nac unrhyw ffordd arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr.

Cyflwynedig i
Tommy Morgan




## Cymysgwch

"Aw!" gwaeddodd Clemi. "Mae'r babi ar ei ffordd."

"O! Diawch," meddai Ben. "Ble mae'r bag nos?"

"Yn y wardrob yn ein stafell ni," meddai Clemi. "Dim ond i ti beidio â chynhyrfu, fe fydd popeth yn iawn."

Brasgamodd Ben i fyny'r grisiau, pedwar gris ar y tro. Agorodd ddrws y wardrob a dyna lle'r oedd bag nos Clemi, gyda phopeth roedd ei angen arni.

"Dere, Ben!" gwaeddodd Clemi o'r stafell fyw.

Anadlodd Ben yn ddwfn.

"Esgidiau!" meddai Ben yn isel. Gwisgodd ei esgidiau.

"Sgarff Cymru!" meddai Ben, a gwisgodd sgarff Cymru.

"Ben!" gwaeddodd Clemi'n uwch.

Baglodd Ben dros ei sgarff a chwympo'n bendramwnwgl o ben y grisiau i'r gwaelod.



"Aw! Aw! Aw! Aw!" gwaeddodd Ben.

"Nid dyma'r amser am ddwli," meddai Clemi.

Rhywsut, roedd Ben wedi anghofio lle'r oedd allweddi'r car.

"R'yn ni wedi ymarfer y camau hyn o'r blaen," meddai Clemi. Roedd gwahanol gamau sut i gael Clemi i'r ysbyty ar y wal mewn llawysgrifen



daclus, ac roedd y ddau wedi ymarfer y broses droeon a thro. Ond nawr, ar ddydd y galw, doedd dim yn tycio.

"Ble mae'r fflipyn allweddi?" gwaeddodd Ben.

Brasgamodd i fyny'r grisiau a thynnu pob trowsus o'r cwpwrdd a chwilio'r pocedi. Yna, aeth drwy bocedi pob cot, ond doedd dim sôn am yr allweddi.

"Dere. Ben … er mwyn y mawredd!" meddai Clemi.

"Dwi'n trio! Dwi'n trio!" gwaeddodd Ben.

Rhedodd allan i'r car i edrych a oedd yr allweddi wrth y llyw. Nac oedden.

Wrth ruthro'n ôl i'r tŷ, clywodd rywbeth yn tincial yn ei drowsus. Rhoddodd ei law yn ei boced a theimlo'r darnau metel hir yn gynnes ar gledr ei law.

"Haleliwia!" gwaeddodd Ben. "Mae'r allweddi gen i."

Llwythodd y bagiau'n ddiseremoni i mewn i'r car a throi'r allwedd.

Roedd pen Ben yn gwthio allan drwy'r to. Rhoddodd ei droed ar y sbardun a gyrru fel cath

i gythraul cyn sylweddoli nad oedd Clemi gyda fe. Roedd e wedi'i gadael hi wrth ddrws y tŷ. Bu raid iddo droi'n ôl ar unwaith.

"Rho dy droed lawr," meddai Clemi. "Mae'r babi'n mynd i ddod unrhyw funud!"

Gyrrodd Ben i'r ysbyty. Roedd e'n gwau rhwng y ceir ar garlam. Pwysai'r nodwydd gyflymder ar wyth deg milltir yr awr.

"Rwyt ti'n gyrru fel gwallgofddyn," meddai Clemi.

"Rydyn ni o fewn tafliad carreg i'r ysbyty," gwaeddodd Ben.

Edrychodd Ben yn y drych a gweld goleuadau glas yn troelli tu ôl iddo.


"Mae'r heddlu ar ein holau ni!" meddai Clemi. "Fydde hyn ddim yn digwydd i neb arall! Pam fi bob tro?"

"Fedrwn ni ddim stopio nawr," meddai Ben. "Bydd hi'n rhy hwyr. A dydw i ddim eisiau i'r bychan gael ei eni yng nghell yr heddlu."

"Na finnau chwaith!" meddai Clemi.

Erbyn i Ben a Clemi gyrraedd yr ysbyty, roedd yr heddlu'n dynn wrth eu sodlau.

"Argyfwng!" meddai Ben. "Mae fy ngwraig ar fin cael babi."



Rhoddodd y porthor Clemi ar wely symudol, a dilynodd Ben hi i'r stafell eni. Daeth yr heddlu ar ôl y ddau – dau gwnstabl â'u gwynt yn eu dyrnau – ond bu raid iddyn nhw aros y tu allan.

Ymhen rhyw awr, roedd babi Ben ym mreichiau'r cawr. Merch fach oedd hi. Ac roedd Ben ar ben ei ddigon. Ond bob ochr i Ben roedd y ddau gwnstabl yn gwarchod rhag ofn i'r dihiryn ddianc o'u gafael.

Wrth ei weld yn dal y babi, doedd dim y gallai'r heddlu ei wneud ond maddau i'r cawr.

Doedd dim problem dod o hyd i enw. Penderfynodd Clemi ar yr enw Enfys.



## Y Post

Cyrhaeddodd Ben adre o'r ysbyty a chodi'r post. Roedd e mor hapus â'r gog, ond yn flinedig. Agorodd bob llythyr fesul un. Roedd e fel petai mewn breuddwyd.

"Sothach," meddai Ben wrth fyseddu'r amlenni. "Sothach! Sothach!"

Cododd un llythyr a'i ddarllen yn ofalus iawn.

"Oddi wrth y cyngor, myn diain i," meddai Ben.

Annwyl Mr Geidfran,

Bydded hysbys ein bod ni, Cyngor Dinas Caerdydd, yn mynd i feddiannu eich tŷ er mwyn adeiladu ffordd osgoi i mewn i'r ddinas. Mae gennych amser i apelio. Byddwn yn eich digolledu am werth eich tŷ ac yn eich symud i dŵr fflatiau Twll O Le.

Yn gywir,

J. Ffowch ap Bresys ap Clustog ap Limpin ap Ffestus.


B.A., B.D., D. Litt.

D.S. Os ydych am apelio, dyma'r drefn:

Apêl at Gyngor y Ddinas – o fewn chwe mis.

Apêl o flaen y Cynulliad – o fewn deuddeg mis.

"Maen nhw'n mynd i ddymchwel y tŷ!" meddai Ben yn syn. "Newyddion da un funud, newyddion trist y funud nesa. Mae bywyd yn od."



**Yr Ysbyty**

Aeth Ben â'r llythyr i'r ysbyty i ddangos i Clemi. Roedd ganddo dusw enfawr o flodau iddi hi hefyd.

"Drychwch," meddai nyrs, "rhywun yn cuddio y tu ôl i dusw o flodau symudol."



"Drycha," meddai Ben. "Maen nhw am fwrw'r stryd i lawr ac adeiladu ffordd osgoi i mewn i'r ddinas."

"Be wnawn ni?" gofynnodd Clemi.

"Mae Dan Ei Sang wedi galw cyfarfod yn Neuadd y Dre heno," meddai Ben. "Dw i'n bwriadu mynd."

Roedd y cyfarfod newydd ddechrau wrth i Ben gyrraedd. Roedd Neuadd Sblot yn orlawn, a'r lle yn gyffro mawr. Roedd pobl o bob rhan o'r byd yn byw yn y stryd. Pobl oedd wedi dod yno i ymgartrefu o Tseina, Hong Kong, Iwerddon, Somalia, Groeg, Israel, ac wrth gwrs, o Gymru. Roedd teuluoedd cyfan wedi dod yno pan oedd Caerdydd yn borthladd mawr, byd-enwog.

"Mae gyda ni rywbeth i'w drysori yma," meddai Ting a Ling. "Mae'n werth i ni ymladd





hyd yr eithaf."

Cymeradwyodd pawb.

Cododd Ben ar ei draed.

"Mae'r teras yma'n hen, yn hen iawn," meddai'r cawr. "Dyma lle magwyd fy nhad, Rhodri Mawr, a'i dad e hefyd – Goliath. Yn wir, yn ôl pob sôn, fe wnaeth Goliath Gawr guro cawr o Ffrainc ym 1850. Daeth hwnnw i ddychryn pobl Caerdydd. Dim ond Goliath oedd yn ddigon dewr i gael ei wared. Dywedodd fy nhad fod Goliath wedi cael ei anrhydeddu hefyd gan gyngor y ddinas."

"Fedrwn ni ddim newid meddwl y cyngor,"



meddai Besi Byd. "Maen nhw'n styfnig fel mulod."

"Yn wir," meddai Abw Dabw. "Mae eu hanner nhw â meddyliau mor styfnig â mulod beth bynnag."

"Mae'n rhaid bod yn bositif," meddai'r cadeirydd Dan Ei Sang. "Bydd eisiau dewis un cynrychiolydd i fynd i siarad â'r cyngor ar ein rhan, a dod o hyd i enw i'r ymgyrch."

"Pwy yw'r mwyaf siaradus?" gofynnodd un o'r protestwyr.

"Mae Ben yn ffraeth a fe yw'r unig un sy'n berchen ar siwt," meddai llais arall.

"Clywch! Clywch!" meddai cymydog Ben. "Mae e'n gawr. Bydd ei faint yn gwneud argraff ar aelodau'r cyngor ac ar bobl y cyfryngau."



Chwarddodd pawb a phleidleisiwyd ar y mater. Roedd pawb yn unfrydol mai Ben fyddai'r gorau i gynrychioli'r stryd.

"Beth am enw i'r ymgyrch?" gofynnodd Dan.

"Dw i'n hoff o'r enw Enfys," meddai Ting a Ling. "R'yn ni sy'n byw yn y stryd yn enfys o liwiau ac mae Enfys, merch Ben a Clemi, newydd ei geni heddiw. Yn union fel ein mudiad ni. Enfys yw dyfodol y stryd."



## Newid byd

Doedd dim lle i Ben, Clemi, y babi, y cesys, yr anrhegion a'r blodau yn y Fiesta. Bu raid i Ben ddod â rhai pethau mewn cert y tu ôl i'r car. Roedd y cymdogion wedi gosod balwnau ar y drws i groesawu Enfys a Clemi yn ôl i'r tŷ. Roedd bywyd Ben a Clemi wedi troi ben i waered. Doedden nhw ddim wedi arfer gofalu am fabi bach. Roedd yn rhaid dysgu sut i ddal y babi, sut i'w bwydo a sut i newid ei chewyn.

Roedd yr ymgyrch i achub y stryd hefyd yn datblygu. Ffurfiwyd pwyllgor i godi arian, pwyllgor hysbysebu, pwyllgor boreau coffi ac ati. Yna ffurfiwyd is-bwyllgor i drafod syniadau'r pwyllgorau. Roedd y stryd yn llawn cynnwrf a phawb yn edrych ymlaen at y gwrandawiad yn y




cyngor. Mae'n siŵr y byddai'r cyngor yn cytuno ag ymgyrch Enfys.

Rhwng gweithio pob dydd, mynd i gyfarfodydd protest a bod yn dad, doedd dim llawer o amser sbâr 'da Ben. Weithiau byddai'n cysgu ar ei frws wrth oedi nawr ac yn y man wrth ei waith.

"Bydd yn rhaid addurno stafell Enfys, Ben," meddai Clemi.

"Bydd," meddai Ben, braidd yn ddigalon.




**Addurno**

"Ai chi yw Ben D. Geidfran?" gofynnodd y siopwr iddo. "Llefarydd Ymgyrch Enfys?"

"Cywir," meddai Ben. "Rwy am brynu papur wal i addurno stafell y fechan, os gwelwch yn dda."

"Sawl rôl o bapur ry'ch chi eisiau?" gofynnodd y siopwr.

"Dw i ddim yn siŵr," meddai Ben.



"Beth yw maint y stafell?" gofynnodd y siopwr.

"Dw i ddim wedi'i mesur hi," atebodd Ben braidd yn dwp.

"Gobeithio eich bod chi wedi trefnu eich protest yn well na hyn," meddai'r siopwr.


"Didl ... Didl ... Didl," hymiodd Ben wrth grafu'r hen bapur oddi ar y wal.

Galwodd cymydog i weld sut oedd y gwaith yn dod yn ei flaen. Roedd pawb yn helpu ei gilydd yn y stryd. Roedd hi'n stryd hapus.

"Mae gen i lamp arbennig sy'n llosgi'r papur," meddai'r cymydog. "Hoffet ti gael ei benthyg?"

Cyn bo hir roedd Ben wrth ei fodd gyda'i degan newydd. Ond roedd e mor awyddus i drio'r lamp llosgi nes anghofiodd e ddarllen y cyfarwyddiadau.

Defnyddiodd fatsien i gynnau'r lamp.



WWWSSHHH!

Taniodd y lamp gan boeri fflamau allan gyda



chymaint o bŵer nes bwrw Ben oddi ar ei draed. Erbyn hyn, roedd y fflamau'n cyrraedd y waliau ac wrthi'n llosgi'r llenni yn ogystal.

"Nefi blw!" gwaeddodd Ben. "Does dim modd rheoli'r teclyn 'ma."

Yna trodd y lamp ar y wardrob a llosgi honno'n ulw, a'r holl ddillad oedd ynddi hefyd. Llosgodd y drws yn wenfflam. Llosgodd Ben ei wallt a'i aeliau yn y broses hefyd.

Gyda lwc, roedd un o'r cymdogion wedi gweld y mwg a'r fflamau drwy'r ffenestri ac wedi ffonio'r frigâd dân. Cyrhaeddon nhw mewn pryd i achub gweddill y tŷ.



## Cyfarfod â'r Cyngor

Erbyn hyn roedd Enfys yn chwe mis oed, a daeth yr amser i gyflwyno apêl y mudiad i'r cyngor. Daeth nifer fawr i wrando ar Ben yn siarad yn siambr y cyngor. Siaradodd yn gwrtais, yn dawel ac yn ofalus gan gofio ysgrifennu nodiadau o flaen llaw rhag iddo anghofio dim.


Roedd y stryd yn llawn o bosteri o blaid ei hachub.

"Tybed enillwn ni?" gofynnodd Dai Tomato.

"Pwy all ddweud?" gofynnodd Jaci Jic.

"Wrth gwrs enillwn ni!" meddai Ting a Ling.

Ond o fewn wythnos derbyniodd Dan Ei Sang lythyr i ddweud fod yr apêl wedi methu. Y Cynulliad oedd unig obaith y stryd bellach – gwaetha'r modd.



## Mwy o addurno


Roedd yn hen bryd bellach i Ben ailgydio yn y gwaith o addurno a phapuro stafell Enfys. Aeth Clemi a'r babi i ymweld â ffrindiau, Jo'r Dewin a Lisa'r Ferch Haearn, er mwyn i Ben gael llonydd.

Cydiodd Ben yn y brws pâst.

"Dwi'n mynd i ychwanegu ychydig o lud cryf iawn at hwn," meddai Ben. "Bydd y papur wal yn siŵr o gydio yn y wal wedyn."

Doedd dim angen ysgol arno – dyna oedd y fantais o fod yn gawr. Ond rhoddodd Ben ormod o'r glud rhyfeddol i mewn i'r pâst.

"Help!" gwaeddodd Ben. "Rwy'n sownd!"



Roedd e wedi gludo'i hun i'r wal, ac wrth drio dod yn rhydd roedd mwy a mwy o bapur wal yn lapio amdano. Roedd Ben yn edrych yn union fel mwmi.

Cafodd Clemi sioc pan ddaeth yn ôl a chlywed sgrechiadau Ben.

"Ro'n i'n meddwl mai Dadi oeddet ti," meddai Clemi. "Nid mwmi!"




Y noson honno bu raid i Ben brynu jèl er mwyn crafu'r papur oddi ar ei wyneb a'i ddwylo. Roedd ei ddillad, wrth gwrs, wedi cael eu difetha'n llwyr.

Roedd wyneb y cawr wedi'i orchuddio â chadachau a phlasteri.





## Anrheg

Mae deuddeg mis yn gwibio heibio pan mae babi newydd yn y tŷ, ac erbyn hyn roedd Enfys (y babi) ac Enfys (y mudiad) yn flwydd oed.

"Rhaid i ni feddwl am anrheg i'r fechan," meddai Lisa.

"Beth am bêl hud sy'n bownsan am byth?" gofynnodd Jo.


"Na," meddai Lisa. "Dyw hi ddim yn gallu dal pêl eto."

"Beth am lyfr sy'n darllen yn ei lais ei hun?" gofynnodd Jo.

"Dyw hi ddim yn deall iaith eto," meddai Lisa.

"Fe wn i," meddai Jo. "Beth am i ni drefnu parti iddi?"

"Campus," meddai Lisa.




## Y Cynulliad

Roedd Cadeirydd y brotest wedi llogi nifer o fysiau i fynd i'r Cynulliad. Roedd yn rhaid i Ben eistedd ar ben y bws fel masgod enfawr gan ei fod e'n rhy fawr i fynd i mewn i'r bws. Roedd baneri llachar â llawer o sloganau wedi'u peintio arnyn nhw. Roedd un yn darllen BENDIGEDIG. Doedd dim angen uchelseinydd ar Ben – gallai pawb ei weld a'i glywed yn hawdd. Daeth Côr Cochion Caerdydd i ganu i helpu gyda'r brotest. Dyma gôr gorau Caerdydd. Roedd pobl y stryd yn creu cymaint o sŵn y tu allan nes ei bod hi'n anodd i aelodau'r Cynulliad glywed yr hyn oedd gan Ben i'w ddweud. Rhoddodd ei farn yn gwrtais ac effeithiol eto, ac arhosodd pawb i glywed penderfyniad y Cynulliad. Hir pob aros.



Daeth taflwr fflamau i ddifyrru'r dorf.
Daeth comedïwr i ddweud ei storïau digri.
Daeth dyn i sefyll o flaen adeilad y Cynulliad.



"Dyma ddyfarniad y Cynulliad," meddai yn ei lais swyddogol. "Mae tri deg aelod o blaid achub y stryd a thri deg o blaid adeiladu ffordd osgoi. Penderfynodd y llywydd fwrw ei bleidlais gyda'r ffordd osgoi. Y ffordd osgoi piau hi. Does dim cyfle am apêl arall."

Teimlai pawb yn flin dros ben.

Roedd Jo y dewin a Lisa'n gwylio popeth ar eu sgrin deledu.

"Beth am wahodd y protestwyr draw i'r parti?" meddai Jo. "Maen nhw'n edrych yn siomedig iawn."

"Syniad da," meddai Lisa. "Nawr, fe gawn ni barti pen-blwydd i Enfys y babi ac i Enfys y mudiad."



**Y parti**

Gwisgodd Ben ei ddillad gorau, a threuliodd Clemi amser hir yn coluro o flaen y drych. Roedd Enfys yn arogli'n berffaith ac yn awyddus i fynd.

Tynnodd y Ford Fiesta yn araf bach ar hyd dreif mawr Jo, ac o fewn chwinc roedd Lisa wedi rhedeg at y drws a chroesawu'r teulu bach o Sblot.

"Dewch i mewn. Dewch i mewn," meddai hi. "Mae pawb yma'n aros amdanoch chi."

Pan gyrhaeddodd y pedwar roedd Ting a Ling, cymydog Ben, yn arwain y gân.



*Pen-blwydd hapus i ni,*
*Pen-blwydd hapus i ni,*
*Pen-blwydd hapus i Enfys,*
*Pen-blwydd hapus i ni.*

O fewn eiliad roedd Jo (yn ei wisg dewin) wedi swyno teisen enfawr i ganol y bwrdd. Roedd un gannwyll yn llosgi'n llachar yn ei chanol. Roedd pawb wrth eu bodd.

"Foneddigion, boneddigesau," meddai Ben. "Carwn i ddiolch i Jo a Lisa am ein gwahodd ni a mudiad Enfys draw i'w tŷ."

Curodd pawb eu dwylo.

"Hoffwn i ddweud ein bod ni wedi colli dwy frwydr, ond d'yn ni ddim wedi colli'r rhyfel eto."

Curodd pawb ei dwylo'n galetach.

"Mae mwy nag un ffordd o gael Wil i'w wely," meddai Ben.



"Dyna ddigon o siarad am y tro," meddai Jo. "Mae'n bryd i ni fwyta."


Gwnaeth Jo arwydd â'i law, ac o fewn dim roedd y byrddau'n llawn o fwyd o bob rhan o'r byd.

Cafodd pawb lond ei fol. Po fwyaf roedd pawb yn ei fwyta, mwyaf yn y byd o fwyd fyddai'n ymddangos. Roedden nhw'n sgwrsio a chwerthin ac yn dweud hen straeon am sut cafodd Ben ei ddannedd gosod.

"Beth am yr helynt yn Corfu?" chwarddodd Lisa.

Roedd Ben yn gwenu, a Jo a Lisa wrthi'n crio chwerthin.





## Helynt y ffon hud

Tra oedd y rhialtwch yn mynd yn ei flaen, llithrodd ffon hud Jo o'i boced. Person chwit-chwat oedd Jo ar y gorau. Un anghofus, anhrefnus oedd e ynghylch ei bethau. Rholiodd y ffon ar draws y llawr cerrig i gyfeiriad Enfys.


Pan welodd Enfys y ffon hud, cododd hi a'i rhoi yn ei cheg. Pwyntiodd y ffon hud i gyfeiriad ei thad.

"Dadi! Dadi!" meddai hi.

Yn sydyn cododd Ben oddi ar ei sedd a dechrau dawnsio yn yr awyr.

"Ieucs," llefodd Ben. "Beth sy'n digwydd?"





Chwarddodd Enfys yn uchel. Rhywsut, roedd Enfys yn gwybod bod y ffon hud yn ei llaw yn gallu symud a rheoli Ben yn yr awyr.


Rhuthrodd y tri arall at Ben. Ond fedren nhw ddim cyffwrdd ynddo.

Chwiliodd Jo yn ei boced.

"O na," meddai. "Mae'r ffon wedi disgyn o'm poced. Mae'r ffon yma'n otomatig. Does dim angen pŵer i'w gweithio hi."

Erbyn hyn roedd Ben yn hedfan i'r dde ac i'r chwith. Roedd yn wyneb i waered un funud, a'r funud nesaf roedd e'r ffordd gywir. Roedd Enfys yn gallu ei droi a rhoi ei ben yn ddwfn sawl tro mewn bowlen o jeli a bowlen enfawr o gwstard. Roedd pen Ben yn union fel blaen





brws.

"Gwna rywbeth!" bloeddiodd Ben.

Cerddodd Jo draw yn dawel i gyfeiriad Enfys. Roedd e'n mynd i gymryd y ffon oddi arni pan nad oedd hi'n sylwi. Ond sylwodd Enfys arno'n dod, ac roedd hi'n cael llawer gormod o hwyl i stopio nawr.

Trodd y fechan y ffon ar Jo. Teimlodd Jo ei draed yn codi oddi ar y llawr. Doedd dim y gallai ei wneud. Tra oedd y ffon yn pwyntio i gyfeiriad Jo roedd Ben yn rhydd, ond roedd ei hanner uchaf mewn powlen o gwstard tew. Roedd golwg frawychus ar wyneb Jo wrth iddo symud drwy'r awyr. Penderfynodd Enfys wneud iddo fwrw'i ben sawl gwaith yn erbyn y nenfwd.



"Aw! Aw! Aw!" llefodd e.

Chwarddodd Enfys yn hapus.

Llwyddodd Ben i godi allan o'r fowlen a mynd i gyfeiriad Enfys. Ei dro e nawr oedd trio cymryd y ffon oddi arni.

Gwelodd Enfys hanner cawr a hanner cawr-cwstard yn dod tuag ati. Trodd ei sylw ato fe nawr. Ond yna gwnaeth hi rywbeth od. Gan ei bod hi'n chwerthin gymaint, rhoddodd y ffon hud yn ei cheg. Roedd y ffon yn pwyntio tuag ati hi y tro hwn. Teimlodd Enfys ei hun yn codi oddi ar y llawr.

"Daliwch hi," meddai Clemi.

"Gafaelwch ynddi," meddai Lisa. "Neu fe gaiff hi ddolur."

Roedd Enfys wrthi'n hedfan o gwmpas y stafell yn creu anhrefn llwyr. Ac o fewn dim, roedd hi




wedi dysgu'r grefft o hedfan gyda'r ffon. Roedd hi'n gallu cyflymu neu arafu, a hedfan i'r dde ac i'r chwith fel y mynnai. Roedd hi'n defnyddio'r ffon hud fel llyw.

"Gwylia!" gwaeddodd Ben. "Mae hi'n anelu amdanon ni."

"Dadi!" meddai Enfys.

Roedd hi'n hedfan fel mellten tuag ato. Bu raid i Ben blygu er mwyn ei hosgoi. Ar ôl munud neu ddau o hedfan, troi mewn cylchoedd a hedfan yn igam-ogam, daliodd Ben ei ferch fach â rhwyd. Daeth ei hantur gyntaf i ben. Roedd gan y protestwyr storïau gwerth eu dweud am y noson honno yn nhŷ Jo.



## Colli

"Mae'n siŵr fod rhywbeth y gallwn ni wneud," meddai Ben wrth Jo, "er i ni golli'r ddwy apêl. Fedri di ddim creu rhyw swyn?"

"Fedra i ddim, mae'n ddrwg gen i. Mae'n rhaid cadw at y rheolau," meddai Jo.

"Oni bai ..." meddai Lisa.

"Ie?" ebe Ben.

"Oni bai fod rhywbeth arbennig yn perthyn i'r tŷ 'ma," meddai Lisa.

"Beth wyt ti'n feddwl?" gofynnodd Ben.

"Pe bai aderyn prin yn nythu yma, neu ystlumod yn gaeafu yma, yna byddai'n rhaid gwarchod y tŷ," meddai Lisa.

"Mae Ben yn gawr," meddai Jo.

"Dydy hynny ddim yn ddigon," meddai Lisa.

"Mae'r tŷ yn hen," meddai Ben heb lawer o obaith. "Dyma'r tai teras cyntaf i gael eu hadeiladu yn Sblot."

Eisteddodd y tri yn dawel yn syllu'n ddiflas ar y bwrdd.

Daeth Clemi i mewn ar frys.





"Ben," meddai Clemi. "Dere 'ma ar unwaith."

"Be sy'n bod?" gofynnodd Ben.

"Mae Enfys wedi dal ei phen yn y barrau," meddai Clemi, gan ruthro allan drwy'r drws ffrynt.

Ac yn wir i chi, dyna lle roedd Enfys, yn sgrechian yn uchel. Roedd hi'n bosib gweld ei phen-ôl yn glir, ond roedd ei phen yn gwbl sownd yn y barrau. Doedd dim posib i hyd yn oed Ben symud y barrau. Doedd dim amdani ond galw'r injan dân i'r tŷ unwaith eto i'w rhyddhau. Sgrechiodd Enfys dros y lle wrth weld y dynion yn eu lifrai yn disgyn o'r injan dân.





## Protest

"Dw i'n mynd i brotestio," meddai Ben, "y tu allan i'r Cynulliad."

Llwyddodd Clemi i wneud poster enfawr iddo. RHAID GWARCHOD EIN TERAS, oedd y geiriau ar y poster.

Bob dydd, byddai Ben yn sefyll y tu allan i'r Cynulliad yn casglu llofnodion pobl wrth iddyn nhw basio. Daeth y papurau newydd, radio Sain Caerdydd a Theledu Cymru i roi cyfweliadau iddo yn eu tro. Tynnodd *Y Cymro* lun o Ben yn cyflwyno'r llofnodion i Brif Weinidog y Cynulliad.

"Mae Enfys yn od o dawel," meddai Ben un bore. "Gyda'r holl brotestio 'ma, falle nad ydw i wedi bod yn rhoi digon o sylw iddi hi a'i bod wedi cilio i'w chragen."





"Dw i ddim yn credu," meddai Clemi. "'Sdim eisiau i ti boeni – mae babis weithiau'n llawn bywyd ac weithiau'n dawel."

Gwelodd Ben ryw dinc disglair yn llygaid Enfys. "Rwyt ti'n iawn," meddai wrth Clemi. "A beth mae'r ferch fach orau'n y byd wedi bod yn wneud 'te?" gofynnodd Ben i Enfys mewn llais plentynnaidd iawn.

Daeth gwên fawr i wyneb Enfys.

"Ben," meddai Clemi, "fe ddylet ti wisgo dy het heddiw, cyn mynd i sefyll o flaen y Cynulliad – mae'n tywallt y glaw."

Oedodd Ben ychydig, ac edrych drwy'r ffenest.

"Sgwn i sawl gwaith fyddwn ni'n edrych trwy'r ffenest yma eto cyn iddyn nhw fwrw'r tŷ i lawr?" ochneidiodd Ben.

Cydiodd Ben yn ei het, a'i tharo'n ddiseremoni ar ei ben.

"Ych a fi!" bloeddiodd Ben.






Roedd hylif brown, drewllyd, yn rhedeg i lawr cefn ei ben, a thros ei lygaid a'i glustiau. Chwarddodd Clemi'n uchel. Roedd Enfys yn sgrechian nerth esgyrn ei phen.


"Pw pw Enfys!" arthiodd Ben. "Ych a fi!"

Oedd, roedd Enfys – y ferch fach orau yn y byd – wedi defnyddio het Ben fel tŷ bach, ac roedd ei busnes gwlyb, meddal yn llithro'n raddol dros ben ac wyneb Ben.

Er i Ben gasglu cannoedd o enwau, doedd y Cynulliad ddim yn fodlon derbyn fod cymaint o bobl eisiau i'r stryd gael ei hachub rhag y peiriannau dymchwel. Byddai'n well o lawer ganddyn nhw roi arian i'r bobl gyfoethog oedd am adeiladu ffordd osgoi.

"I'r gad!" meddai Ben.





**Ben ar ben y to**

"Croeso i'r rhaglen," meddai'r cyflwynydd. "Mae'r rhaglen yn fyw heno o Gaerdydd. R'yn ni y tu allan i dŷ Mr Ben D. Geidfran, cawr a gweithiwr i Ddinas Caerdydd. R'yn ni yma heno am fod Mr Geidfran wedi cadwyno'i hun i'w simdde. Mae'n protestio am fod cynlluniau gan Gyngor y Ddinas i fwrw i lawr rannau helaeth o hen Gaerdydd a gosod ffordd osgoi yn eu lle."

Edrychodd y cyflwynydd i fyny at Ben.

"Beth ydych chi'n gobeithio ei ennill wrth gadwyno eich hun i'r to?" gofynnodd y cyflwynydd.

"Cadw fy nhŷ, fy enw da a chartrefi fy



ffrindiau," meddai Ben.

"Ond mae'r peiriannau dymchwel yn cyrraedd ben bore Llun nesaf. Beth allech chi wneud i'w rhwystro?"

"Dw i'n trio dangos fod Cyngor Dinas Caerdydd yn gwneud rhywbeth twp, ac mae'n rhaid i ni sefyll yn gadarn yn erbyn eu cynlluniau. Mae gormod o geir ar ein heolydd fel y mae hi," meddai Ben.

Roedd Clemi ac Enfys wrthi'n gwneud dysglaid o de i'r dyn camera.

"Ydych chi'n cefnogi eich gŵr, Clemi?" gofynnodd y cyflwynydd iddi.

"R'yn ni'n falch iawn o Ben a'r safiad mae e'n ei wneud," meddai Clemi.

Rhoddodd Enfys wên fawr i'r camera.

Roedd Jo a Lisa'n gwylio'r newyddion y noson honno.



"Aha!" meddai Jo yn dyner. "Bydd gwên Enfys yn siŵr o ennill cydymdeimlad y cyhoedd."

"Mae arna i ofn na fydd gwên yn ddigon," meddai Lisa'n ddigalon.

Roedd popeth arall wedi methu.

"Ddaw Ben ddim i lawr nawr," meddai Jo. "Mae e'n benderfynol."

Cytunodd Lisa. Nodiodd ei phen yn drist.

"Hyd nes y daw'r plismyn," meddai Lisa.


"'Sgwn i …" meddai Jo.

"Be?" gofynnodd Lisa.

"A oes modd i ni roi tipyn o fantais iddo?"

"Be 'dach chi'n feddwl?" gofynnodd Lisa.





## Bendigedig

Roedd Clemi wedi dyfeisio system wych o fwydo Ben tra oedd e ar y to. Roedd rhaff a phwli ganddi oedd yn cysylltu'r simdde i'r ardd. Bob hyn a hyn, byddai sachau o fwyd, a bwcedi o de a dŵr yn cael eu tynnu gan Ben ar hyd y rhaff. Roedd Clemi wedi dysgu llawer oddi wrth y rhyfelwyr eco.

Roedd llygaid y byd ar Ben, ar ben y to. Yn y nos, disgleiriai goleuadau llachar timau camerâu o wledydd Prydain ar Ben yn ei nyth. Roedd Ben bob amser yn ddigon hapus i roi cyfweliad i bobl y cyfryngau, ac wrth i'r stori ledu, deuai mwy a mwy o bobl i wylio'r olygfa hynod.


"Go dda, Ben!" gwaeddodd un o'r dyrfa.


"Ffŵl dwl," meddai rhywun arall wrth basio.

Chwifiodd Ben yn ôl i arwyddo ei fod wedi'i glywed. Doedd dim ots 'da Ben. Doedd e ddim yn malio botwm corn am yr hyn roedd pobl yn ei feddwl ohono.

"Mae Ben yn trio achub ein stryd," meddai un o'r cymdogion. "Mae e'n ymladd troson ni."

Roedd fan fwyd wedi dod er mwyn darparu bwyd a diod i'r bobl. Roedd ambell berson yn dringo'r ysgol er mwyn ysgwyd llaw â Ben neu er mwyn cael tynnu llun gyda fe. Roedd plant yn gofyn am ei lofnod.






"BEN YW EIN HARWR," oedd y geiriau ar un faner ar waelod y stryd. Erbyn hyn roedd y stryd yn llawn o bobl fusneslyd, pobl o bleidiau gwleidyddol a phobl yn erbyn yr hyn roedd Ben yn ei wneud. Roedd cymaint yno nes bod yn rhaid galw ar y plismyn i ddod i greu llwybr ar gyfer y traffig.





## Tarzan

Daeth Jo a Lisa i ysgwyd llaw gyda Ben a sibrwd eu cynllwyn yn ei glust.

"Be wyt ti'n ei feddwl ohono?" gofynnodd Jo.

"Syniad da," meddai Ben gan wenu.

Dringodd Jo y goeden yn yr ardd drws nesaf, ac o fewn dim, roedd wedi adeiladu llwyfan yno. Gwnaeth yn siŵr fod rhaff gref yn cysylltu simdde Ben â'r goeden honno.

"Byddi di'n gallu mynd o'r to i'r goeden yn weddol ddiogel a chwim," meddai Jo. "Rhag i'r heddlu dy ddal di'n rhy rhwydd."

Ac o fewn munudau, roedd Ben yn llithro o'r to i'r goeden heb ffws na ffwdan.

Chwarddodd y gynulleidfa a churo dwylo. Roedd hi'n bosib bellach iddo ddianc o un lle i'r llall.


Rhoddodd cynllun Jo a Lisa syniadau tebyg i bobl eraill. Roedden nhw'n benderfynol o helpu Ben. Codwyd llwyfannau eraill, ar doeau a choedydd cyfagos, lle byddai Ben yn gallu symud yn hawdd ar ei raff.

"Mae e fel Tarzan," meddai un sylwebydd.

Roedd Clemi ac Enfys yn ofnus ar y dechrau wrth weld Ben yn symud fel wiwer chwim o simdde i simdde ac o goeden i goeden.

"Bydd yn ofalus, cariad," meddai Clemi. "Byddai'n well gen i golli'r tŷ na dy golli di."

"Mae'n rhaid i ni ymdrechu tan y funud olaf," meddai Ben wrthi. "Cyn i'r peiriannau fwrw'r tai i lawr a gwasgaru teuluoedd y stryd i bedwar ban byd."





**Bore Llun**

"Wel," meddai Clemi fore Llun, "efallai byddan nhw'n bwrw'r tŷ i lawr ond fyddan nhw ddim yn mynd â'n heiddo ni. Dere, Enfys, mae gwaith 'da ni i wneud."

Roedd Jo a Lisa yno yn helpu i gasglu pethau Ben, Clemi ac Enfys.

"Do'n i ddim wedi sylweddoli pa mor hen oedd y tŷ," meddai Lisa. "Petai …"


"Ie?" gofynnodd Clemi.

"Dim ots," meddai Lisa. "Dim ond syniad funud olaf oedd gen i."

"Dwedwch," meddai Clemi.



Dywedodd Lisa ei syniad wrth Clemi a dangos llyfr iddi – llyfr mawr, trwchus am hanes adeiladau prin Caerdydd.




Roedd y gwaith o roi pob dim mewn blychau er mwyn mynd i fyw i dŵr fflatiau Twll o Le yn dorcalonnus. O fewn awr byddai'r heddlu, y peiriannau a'r camerâu yn dod yn ôl i ddinistrio'r cartrefi lle'r oedd pobl yn arfer byw.

Gallai Ben weld y fyddin yn dod o bell. Roedd golau glas ceir y plismyn yn fflachio, sŵn y peiriannau enfawr yn byddaru, lorïau'n rhuo a'r dorf yn gweiddi.


"GYLP!" meddai Ben. "Wyddwn i ddim fod angen cymaint o beiriannau i fwrw stryd fach i lawr."


Roedd y cawr yn ofnus iawn. Tawelodd y dyrfa wrth weld mor gryf oedd y gelyn yn ei erbyn. Daeth y fintai i aros.

"Byddwch yn synhwyrol," meddai'r Prif Arolygydd drwy'r uchelseinydd. "Dewch i lawr ar eich union, Ben. Peidiwch â gwneud ffŵl ohonoch chi'ch hun."



Clywodd Clemi, Jo a Lisa'r geiriau hyn. Trodd Clemi i chwilio am Enfys, ond doedd dim golwg ohoni. "Ble mae hi nawr?" gofynnodd Clemi.





## Dewch yn dawel

Roedd y garfan gyntaf o heddlu wedi rhoi ysgolion yn erbyn wal Ben ac wrthi'n dringo tuag ato. Roedd gwên ar eu hwynebau.

"Dyma'r ffŵl mwyaf i mi ei weld ers amser," meddai un plismon.

"Dewch yn dawel," meddai'r rhingyll wrth Ben, "a bydd popeth yn iawn."


"Dod yn dawel?" meddai Ben yn syn. "Dyna'r peth olaf dw i eisiau ei wneud. Wiiiiiii," gwaeddodd, ac i ffwrdd ag e ar ei raff i'r goeden drws nesaf.

"Mae e wedi dianc, Sarj," gwaeddodd un plismon twp.

Chwarddodd y dorf.

"Ben! Ben! Ben!" llafarganodd y dyrfa.





Yna daeth carfan arall o blismyn i geisio dal Ben. Dechreusant ddringo'r goeden drws nesa ond wrth iddyn nhw gyrraedd ato – "Wiiiiiiii!" gwaeddodd Ben eto, ac i ffwrdd ag e fel mellten i'r to nesaf.

Roedd y dyrfa yn hapus iawn ac ar ben ei digon.

Weithiau, byddai grŵp o blismyn yn llwyddo i ddal y cawr gerfydd ei droed, ond byddai Ben yn eu hysgwyd nhw i ffwrdd fel y byddai postmon yn ysgwyd cŵn gorgyfeillgar o gwmpas ei draed.

“Enfys! Enfys!” gwaeddodd Clemi. “Ble rwyt ti?” Erbyn hyn, roedd Clemi’n poeni fod Enfys wedi mynd i helynt, a’i bod hi’n sownd yn rhywle.


“Enfys! Enfys!” galwodd Lisa yn y lolfa.

Roedd Jo yn chwilio ar ei bedwar yn yr atig. Roedd ysgol yno’n barod.

“Enfys?” meddai’r dewin. “Wyt ti yma?”

Roedd Clemi wedi cyrraedd pen ei thennyn. Doedd Enfys ddim yn ei hateb. Roedd hi’n wirioneddol ar goll. Efallai ei bod hi wedi cael dolur. Beth allai Clemi ei wneud? Byddai’n rhaid iddi ddweud wrth Ben.





**Enfys – yr Addewid Newydd**

Roedd degau o heddlu ar doeau, neu mewn coed o gwmpas y stryd, a phob un yn edrych yn dwp iawn ar sgrin fawr y teledu. Roedd Ben yn mwynhau’r sylw. Ond daeth yr holl halibalŵ i ben pan redodd Clemi allan i’r stryd a gweiddi nerth esgyrn ei phen:

“Mae Enfys ar goll, Ben!”

Roedd Ben wrthi’n llithro ar y wifren uwch ei phen. Roedd Clemi’n sefyll ar bwys y Prif Gwnstabl. Torrodd y rhaff yn sydyn – SNAP! – a glaniodd Ben ar ben y Prif Gwnstabl a’i lorio’n llwyr.

"Beth? Enfys ar goll?" gofynnodd Ben yn bryderus. Daeth y gwaethaf i'w feddwl.

Ond y funud honno daeth Jo i'r ffenest uchaf.

"Mae hi'n ddiogel," meddai'r dewin gan wenu. "Ac mae hi wedi dod o hyd i rywbeth diddorol iawn."

"Wel pwy fyddai'n credu," meddai Ben yn nes ymlaen. "Enfys fach sy wedi ennill y dydd!"

"Ie'n wir," meddai Clemi. "Oni bai amdani hi, fydden ni byth wedi dod o hyd i Siarter Goliath Gawr."

"Ac mae'r Siarter hwn yn diogelu nid yn unig y tŷ, ond y stryd i gyd," meddai Lisa. "Chaiff neb ei bwrw i lawr."




"Bydded hysbys," darllenodd Jo y dewin mewn llais pwysig, "y bydd Goliath Gawr a'i ddisgynyddion yn cael byw yn heddychlon yn y stryd hon tra pery ei linach. Gwneir hyn er mwyn diolch iddo am achub dinas Caerdydd rhag ymosodiad y gelyn."

"Beth mae hyn yn ei feddwl?" gofynnodd Ben.

"Fydd dim modd i Gyngor Dinas Caerdydd dynnu'r adeiladau yma i lawr. Rwyt ti ac Enfys yn ddisgynyddion i Goliath Gawr. Yn wir, rhywbeth i'w drysori ydy perthyn – onid e?" meddai Jo gan wincio ar Enfys.

Gwenodd Enfys yn rhadlon a dweud "Dada!"

A rhoddodd hi glamp o gusan fawr i Ben.



fflach doniol

# Babi BEN

Mae'r rhemp a'r rhialtwch yn parhau yn Sblot wrth i fabi newydd y cawr Ben D Geidfran gyrraedd i'r byd. Mae dod i arfer â bod yn dad yn ddigon o gamp ynddo'i hun ond, ar ben y cwbl, mae Cyngor y Ddinas yn penderfynu eu bod am ddymchwel y stryd, gan gynnwys cartref Ben, Clemi a'r babi.

Dyw Ben a'i gyfeillion ddim am ildio i'r Cyngor a mynd i fyw i dŵr fflatiau Twll o Le, felly does ond un peth amdani … i'r gad! … a phwy'n well na chawr o ddyn i arwain y brotest!



Dyma ddilyniant i storïau doniol eraill Gwyn Morgan am Ben, y cawr. Gallwch hefyd fwynhau Dannedd Gosod Ben a Ben ar ei Wyliau.

ISBN 1-85596-611-5

9 781855 966116

Darluniau/DaiOwen